YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR HAF 2019 SUMMER NEWSLETTER

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
https://twitter.com/YGGPontardawe

Mae blwyddyn arall wedi diflannu! Dymunwn bob lwc a llwyddiant i'r 53 disgybl Blwyddyn 6 sy'n ymadael â'r ysgol ddiwedd y tymor yma, cyn symud ymlaen i'r ysgol uwchradd ym mis Medi. Diolchwn o galon i iddynt am eich cyfraniad arbennig i fywyd a gwaith yr ysgol dros eu hamser gyda ni. Dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol i bob un ohonynt.
Bydd yr ysgol yn ail agor i ddisgyblion ar **Ddydd Mawrth, Medi'r 3ydd.** Dymuniadau gorau i'n teuluoedd dros yr Haf.
Another year has disappeared! We extend our very best wishes to our 53 Year 6 pupils who are leaving us at the end of term and moving on to comprehensive school in September. We extend them a big thank you for their outstanding contribution to the life and work of the school throughout their time with us. Very best wishes for the future to you all. The school will re-open for pupils on ***Tuesday, September 3rd****. Best wishes to all our families over the summer.*

HMS / *INSET*
Gair o atgoffa am y diwrnodau HMS sy'n weddill y tymor yma - dydd Gwener Gorffennaf 19eg a Dydd Llun yr 22ain. Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae hyn yn gadael tri diwrnod HMS i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chwi wedi trefnu rhain. Rhag ofn i chi ei golli yn y cyfryngau, cofiwch fod Gŵyl Banc Calan Mai'r flwyddyn nesaf wedi'i symud i ddydd **Gwener Mai 8fed 2020**.
A quick reminder of our INSET days on Friday July 19th and Monday July 22nd. INSET days already planned for the next academic year are listed below. This leaves three INSET days yet to organise. As soon as these are organised, we will provide as much notice as possible. In case you missed it in the media, next year's May Day Bank holiday has been moved to ***Friday 8th May 2020****.*

Dydd Llun, Medi 2ail / *Monday, September 2nd*
Dydd Gwener, Hydref 4ydd / *Friday, October 4th*
Dydd Llun, Gorffennaf 20fed 2020 / *Monday, July 20th 2020*

Pecynau Diwedd Blwyddyn / *End of Year Packs*
Ar ddydd Mercher17eg fe fyddwch yn derbyn pecynau diwedd blwyddyn. Yn y pecynau yma fe fydd

1) Cadarnhad o ddosbarthiadau'r flwyddyn nesaf - Mewn sefyllfa o ddosbarthiadau blynyddoedd cymysg, mae strwythur y dosbarthiadau wedi'u ffurfio yn unol â Pholisi Trefniadaeth Dosbarth yr ysgol (ar gael o'n gwefan neu'r linc isod). Bydd y disgyblion hefyd yn cael eu cyflwyno i'w dosbarth newydd a ble'n bosib i'w hathro newydd ar fore dydd Mercher.
https://ygg-pontardawe.j2bloggy.com/cy/polisiau/
2) Gwybodaeth am yr adran ar gyfer mis Medi. Mae nosweithi croesawi adran wedi'u trefnu ar gyfer nos Lun. Medi'r 9fed (Meithrin, Derbyn, B1 a B2) a Nos Fawrth, Medi'r 10fed (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6). Ceisiwch fynychu'r nosweithi.
3) Llyfrau 2017-2018 – Oherwydd fod arolygiaeth ysgolion Estyn yn rhoi llai o rybudd arolwg i ysgolion (15 diwrnod) mae angen i ni ddal at dystiolaeth o waith disgyblion (llyfrau). Cofiwch mai llyfrau'r llynnedd fydd y disgyblion yn dod adre gyda nhw heno. Gobeithiwn ddanfon llyfrau eleni adre pan fydd swmp o waith yn llyfrau'r flwyddyn nesaf.
4) Canlyniadau Profion B2 i B6 – Fe fydd yr holl dystysgrifau sydd wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dosbarthu yn y pecynnau. Cofiwch mai scoriau safonedig sy'n cael eu cynnwys ar y tystysgrifau. Gall dau ddisgybl ennill yr un marc crai ond gall eu scor safonedig amrywio. Yn yr un modd gall disgybl ennill yr un marc a'r llynnedd ond eto gydag amrywiaeth yn y scor safonedig. Eleni hefyd, yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer profion ar lein mathemateg gweithdrefnol. Yn unol â chanllawaiau'r llywodraeth, adroddiad ac nid tystysgrif fydd y disgyblion yn ei dderbyn.

On Wednesday 17th you will receive end of year packs. In these packs there will be

1) *Confirmation of next year's classes - In circumstances of mixed year group classes, they have been organised in line with the school's Class Organisational Policy (available from our website or the link below). Pupils will also be introduced to their new class and where possible their new teacher on Wednesday morning. https://ygg-pontardawe.j2bloggy.com/en_GB/polisiau/*
2) *Department Information for September - Department welcome evenings have also been arranged for Monday evening September 9th (Nursery, Reception, Y1 and Y2) and Tuesday 10th September (Year 3 to Year 6). Please try to attend.*
3) *Books 2017-2018 – the schools inspectorate Estyn is now giving schools shorter notice of inspections (15 days). For this reason, we will need to hold on to evidence of pupils work (books). Remember that it will be last year's books that the pupils will bring home tonight. As soon as a bank of work is completed in next years' books we will send home this year's books.*
4) *Y2 to Y6 Test Results - All certificates received by the Welsh Government will be distributed in the packs. Remember that it is the standardised scores that are included on the certificates. Two pupils can achieve the same raw mark but their standardised scores may vary. Similarly a pupil can achieve the same mark as the previous year but again the standardised score may vary. This year is also the first year of online procedural maths tests. In accordance with government guidelines, pupils will receive a report and not a certificate.*

Hanner Can Mlwyddiant yr Ysgol / *School Fifty Year Celebration*

Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn edrych mor smart ar gyfer y llun. Allwn ni ofyn yn garedig i bawb sicrhau fod pob disgybl yn gwisgo gwisg ysgol lawn ym mis Medi.

It was wonderful to see all our pupils looking so smart for the whole school photograph. Could we kindly ask that every pupil is wearing a full school uniform in September.

Gwisg Ysgol / *School Uniform*	
Crys Polo Nefi *Navy Polo Shirt*	
Crys Chwys Nefi *Navy Sweatshirt*	
Cardigan Nefi *Navy Cardigan*	
Trowsus neu Sgert Llwyd *Grey Trousers or Skirt*	
Esgidiau du *Black shoes*	

Cynllun Mynediad PDG / *PDG Access Grant*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Grant Mynediad PDG. Ei bwrpas yw darparu cymorth grant i deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol a chyfrannu at gostau eraill sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Yn wreiddiol wedi'i gynnig i flwyddyn 7, mae bellach ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i Brydau Ysgol am Ddim fydd yn mynychu'r dosbarth derbyn ym Medi 2019, Blwyddyn 3 ym Medi 2019 a Blwyddyn 7 ym Medi 2019. Mae rhagor o wybodaeth a furlenni cais ar lein i'w cael wrth ymweld â www.npt.gov.uk/1316?lang=cy-gb.

Welsh Government has introduced a PDG Access Grant. The purpose of which is to provide grant assistance to families on low incomes for the purchase of school uniforms and a number of other costs associated with school. Where a similar grant was previously available at year 7, it is now available to pupils who are eligible for Free School Meals entering the reception class in September 2019, Year 3 in September 2019 and Year 7 in September 2019. Further information and online application forms are available by visiting www.npt.gov.uk/1316.

Ymgynghoriad Trafnidiaeth / *Transport Consultation*

Mae'n bwysig i ni eich hysbysu fod cyngor CNPT yn ymgynghori ar newid i gostau teithio i Addysg ol16 a allai effeithio ar ddisgyblion sy'n parhau a'u addysg Gymraeg Yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Mae hyn yn dilyn cyfnod o fuddsoddiad ardderchog yn yr ysgol. Mae hefyd yn gyfnod lle mae nifer y disgyblion sy'n dewis aros i Chweched Ystalyfera wedi codi'n sylweddol.

Mae'n debygol y bydd yr argymhellion yn effeithio ar y disgyblion presennol a dyfodol fel a ganlyn

- Codi pris teithio o £100 i £390 y flwyddyn (£780 felly ar gyfer cwrs dwy flynedd!) a hynny **DIM OND** os oes sedd wag ar y bws
- Dim cynnig i gynorthwyo disgyblion o gefndiroedd difreintiedig
- Dim gwarant am sedd i ddisgybl 16+
- Gall y sedd, ar ôl ei brynu, gael ei dynnu yn ôl, os bydd disgybl sy'n gymwys am deithio am ddim yn ymuno a'r daith
- Codi yr un pris i ddisgyblion o tu hwnt i'r sir (pob oedran)

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y linc i fynd at wefan Ysgol Gyfun Ystalyfera

https://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/2019/07/09/cludiant-ysgol/

Ymatebwch i'r ymgynghoriad drwy ymweld â gwefan Cyngor CNPT https://www.npt.gov.uk/5907.

Anfonwch ebost at eich Cynghorydd Sir (darganfod eich cynghorydd yma https://democracy.npt.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=1) yn nodi eich pryderon

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar ddydd Sul, Awst 4ydd.

It is important that we inform you that NPT Council are currently consulting on proposals to change their transport policy which may affect pupils continuing their Welsh medium education at Ysgol Gyfun Ystalyfera. This following such a fantastic investment by NPT and the Welsh Government in the school and at a time where more and more pupils choose to remain at the school for Sixth Form study.

This is likely to affect current and future pupils in the following way.

- *Raise travel costs from £100 to £390 each year (£780 therefore for their two-year courses!) and this **ONLY IF** there is a spare seat on the bus*
- *No plans to assist pupils from disadvantaged backgrounds*
- *No guarantee of travel for 16+ students*
- *The seat, once purchased can be withdrawn if it is required by another eligible pupil*
- *Raise the same charge for out of county pupils (all age groups)*

For further and more detailed information, click the link below to visit Ysgol Gyfun Ystalyfera's website.

https://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/en/2019/07/09/cludiant-ysgol/

***Please r**espond to the consultation by visiting the Council website at:*
https://www.npt.gov.uk/5907?lang=en-gb
Or by sending an email to your local County Councillor (find your councillor here: https://democracy.npt.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=0) noting your concerns

The consultation closes on Sunday 4th August

Cinio Ysgol / *School Dinners*
Rydym wedi'n hysbysu y bydd pris cinio ysgol gynradd o'r 2ail o Fedi 2019 ymlaen yn £ 2.35 y dydd - £11.75 yr wythnos.
We have been notified that as of the 2nd September 2019, the price of a primary school meal will be £2.35 per day - £11.75 per week.

Cwriclwm Cenedlaethol Newydd i Gymru / *A New Curriculum for Wales*
Fe lansiwyd drafft cyntaf y Cwricwlwm newydd i Gymru ar ddydd Gwener, Ebrill 30ain. Bydd yn statudol o Fedi 2022 a bydd y cwricwlwm newydd yn effeithio'r ffordd y bydd eich plentyn yn cael ei (h)addysgu. Yn fuan, fe fydd y mwyafrif o ysgolion yn dechrau'r broses o symud tuag ato. Fel un o'r ysgolion oedd yn arloesi'r cwricwlwm, mae nifer o elfennau'r cwricwlwm eisoes wedi'u plethu i'n dysgu ac addysgu. Os na lwyddoch i fynychu ein cyflwyniadau ar Fai'r 2ail a hoffech ddysgu mwy am strwythur a chynnwys y cwricwlwm, mae gwybodaeth bellach a chyflwyniadau ar gael trwy dudalen ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Byddent yn croesawi adborth. Y dyddiad cau yw Gorffennaf 19eg.

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022

The new draft curriculum for Wales was made available on April 30th. It will be statutory from September 2022 and will affect the way in which your child is educated. Most schools will soon be starting the process of moving towards it. As one of the curriculum pioneering schools, a number of elements from the new curriculum have already been blended into our teaching and learning. If you were unable to attend our curriculum presentations on May 2nd and would like to find out more about the changes to the curriculum, further information and presentations are available from the Welsh Government Consultation web page. The government would welcome feedback. The closing date is July 19th.

https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022

Staff / *Staff*
Dymunwn y gorau i Mrs Lewis Jones a gobeithio y bydd yn dychwelyd atom wedi'r Haf.
Trist iawn yw eich hysbysu y bydd Mrs Siân Richards yn ymddeol dros yr Haf ar ôl saith mlynedd a hanner ym Mhontardawe. Bu ei chyfraniad fel athrawes, pennaeth adran a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn eithriadol. Dymunwn y gorau iddi. Yn yr un modd y byddwn yn dweud ffarwel wrth Mr Martin Collom, ein gofalwr dros y chwe blynedd diwethaf. Pob lwc iddo yn ei swydd newydd fel prif ofalwr Ysgol Uwchradd Cwmtawe.
Braf hefyd yw gallu croesawi Mr Rhys Lewis atom i addysgu Blwyddyn 4 a 5 ym Mis Medi. Mae Mr Lewis yn athro profiadol ar draws y cynradd a'r uwchradd. Mae diddordeb mawr ganddo mewn ymarfer corff a chwaraeon, ynghyd â sgiliau cerddorol.
We wish Mrs Lewis Jones well and hope to see her returning to school after the summer break.
It is with sadness that we are informing you that Mrs Siân Richards will be retiring over the summer after seven and a half years at Pontardawe. Her contribution as a teacher, department head and additional learning needs coordinator has been outstanding and we wish her well for the future. We are also saying goodbye to Mr Martin Collom our caretaker over the past six years. We wish him all the best in his new post as head caretaker at Cwmtawe Comprehensive.
Could we also warmly welcome Mr Rhys Lewis as our Year 4 and 5 teacher in September. Mr Lewis is an experienced primary and secondary teacher. He has a great interest in PE and sport, together with musical skills.

Presenoldeb / *Attendance*
Allwn ni estyn gair o ddiolch i'n holl deuluoedd. Mewn cyfnod lle mae presenoldeb yn cwympo ar draws yr awdurdod, gyda'ch cydweithrediad chwi mae presenoldeb y flwyddyn academaidd yma hyd at ddiwedd Mehefin yn 95%. Gosod hwn yr ysgol yn 13eg ar draws yr Awdurdod. Rydym yn croesi ein bysedd y byddwn yn llwyddo i'w gadw yn uwch na 95% dros wythnosau ola'r flwyddyn. Diolch i chi.
Could we extend a word of thanks to all our families. At a time when attendance is dropping across the authority, thanks to your cooperation, attendance for this academic year up until the end of June is 95%. This ranks school attendance at 13th across the authority. We are keeping our fingers crossed that we are able to maintain it at or above 95% over the last weeks of term. Thank you.

Year	Sept	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Apr	May	June	July	Total	To 30/6	Diff
2014/15	96.31%	96.34%	95.08%	93.07%	95.51%	96.24%	95.21%	96.58%	92.75%	94.55%	94.39%	95.13%	95.18%	-0.05%
2015/16	96.10%	96.09%	95.10%	92.86%	94.07%	95.78%	95.71%	95.17%	94.07%	94.14%	90.95%	94.67%	94.94%	-0.27%
2016/17	95.95%	95.85%	95.45%	92.14%	96.50%	95.84%	96.39%	96.09%	94.27%	95.50%	94.54%	95.44%	95.51%	-0.07%
2017/18	96.27%	96.09%	96.09%	95.22%	96.82%	94.35%	95.46%	96.32%	93.73%	93.07%	92.74%	95.11%	95.31%	-0.20%
2018/19	96.29%	96.66%	95.84%	92.91%	94.86%	94.88%	95.26%	90.95%	94.22%	95.92%		95.00%	95.00%	0.00%



Newyddion cyffrous / *Exciting News*

Y newyddion diweddaraf yw fod y cais cynllunio wedi bod yn llwyddiannus ac y mae'r awdurdod yn gweithio ar dendrau gyda chontractwyr. Mae'n debygol y bydd y gwaith yn cychwyn tua'r Nadolig gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn Medi 2020. Fe fydd y cynlluniau ar gael i'w trafod yn ystod y Nosweithi Croesawi Adran ar y 9fed a'r 10fed o Fedi.

The latest news is that the planning application has been successful and that the authority is at the tender stage with contractors. It is likely that the work will commence around Christmas with a planned completion date of September 2020. Plans will be available for parents to view on the Department Welcome Evenings on the 9th and 10th September.

Clybiau Allgyrsiol / *School Clubs*

Ni fydd clybiau yn wythnos olaf y tymor (w/c 15.07.19). Byddant yn ail gychwyn yr ail wythnos ym mis Medi.

There will be no clubs during the last week of term (w/c 15.07.19). Clubs will recommence on the second week in September.

Clybiau'r Urdd / *Urdd Clubs*

Fe fydd Clwb Rygbi Bach yr Urdd (5-7 oed) yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar ddydd Mercher, Gorffennaf 31ain. Mae gweddill clybiau'r Urdd yn yr ardal dros wyliau'r Haf isod.

A Clwb Rygbi Bach will be held at the school (5-7yrs) on Wednesday July 31st. Details of the other clubs that the Urdd will be running over the summer in the area are listed below.

<u>Gwersi Offerynnol / *Instrument Lessons*</u>
Fe fydd yn flwyddyn academaidd newydd cyn i ni droi. Os hoffech i'ch plentyn gychwyn gwersi offerynnol ym mis Medi, gadewch i ni wybod. Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthyg offerynnau am ddim.
It will be a new academic year very soon. If you would like your child to take up instrumental lessons in September, please let us know. Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument.

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* – Telyn / *Harp* (Mr Llywelyn Jones)
Dydd Iau / *Thursday* – Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)
Dydd Gwener / *Friday* - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams) a Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Y Siarter Iaith / *Welsh Language Charter*

Prif nod y Siarter yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel eu bod yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru. Cofiwch eich pwysigrwydd chwi fel rhieni yn y nôd yma. **Cofiwch atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion – yn enwedig y disgyblion sy'n ystyried darpariaeth uwchradd. Os nad ydych eisoes wedi ei ddarllen, cliciwch ar y linc isod a chymrwch funud new ddau i ddarllen erthygl y Guardian am esblygiad y Gymraeg. Os yw disgyblion yr ysgol yn cymdeithasu gyda chwi, anogwch nhw i siarad yr iaith – yn enwedig dros yr Haf.**

The main aim of the Charter is to inspire our children and young people to use the Welsh Language in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales. ***Remember your importance, as parents in this aim. Please reinforce the benefits of bilingualism with our pupils – especially those who are considering secondary provision. If you have not read it yet, click on the link below and take a few minutes to read the recent article in the Guardian outlining the evolution of the Welsh language. If pupils are socialising with you, encourage them to speak the language - especially during the summer.***

https://www.theguardian.com/uk-news/2019/jun/13/welsh-speaking-bilingual-tv-thrillers-cool

Cofion Gorau / *Best Wishes*

Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymhor sydd i ddod ------->
A few dates for the term ahead

Ysgol Gymraeg Pontardawe
Dyddiadur Hydref 2019 / *Autumn 2019 Diary*

Dydd Llun, Medi'r 2ail *Monday, September 2nd*	HMS *INSET*
Nos Lun Medi 9fed *Monday, September 9th*	Noson Groesawu Meithrin / Derbyn am 3:20yh *Nursery / Reception Welcome Evenings at 3:20pm*
	Noson Groesawu B1&2 am 4:00yh *Y1&2 Welcome Evenings at 4:00pm*
Nos Fawrth Medi 10fed *Tuesday, September 10th*	Noson Groesawu B3&4 am 3:30yh *Y3&4 Welcome Evenings at 3:30pm*
	Noson Groesawu B5&6 am 4:10yh *Y5&6 Welcome Evenings at 4:10pm*
Dydd Iau Medi 19eg *Thursday, September 19th*	Diwrnod Mentergarwch B6 yn YG Ystalyfera *Year 6 Entrepreneurship day at YG Ystalyfera*
Dydd Gwener, Hydref 4ydd *Friday, October 4th*	HMS *INSET*
Llun i Wener Hydref 7fed i'r 11fed *Monday to Friday October 7th to 11th*	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 6 â Than y Bwlch *Year 6 Residential Visit to Tan y Bwlch, Snowdonia*
Hanner Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Hydref 25ain ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Llun, Tachwedd 4ydd ***Half Term** – School closes on Friday, October 25th and will re-open for pupils on Monday, November 4th*	
Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 20fed ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 6ed ***End of Term** – School closes on Friday, December 20th and will re-open on Monday, January 6th*	